# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 29 Ionawr 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid
2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

## Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid

### Partneriaethau Gostwng Troseddu ac Anhrefn

**C10 Helen Mary Jones:** Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog gyda'r Swyddfa Gartref ynghylch dyfodol y partneriaethau gostwng troseddu ac anhrefn yng Nghymru? (OAQ22008) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog Cyllid (Edwina Hart):** Câf drafodaethau rheolaidd â chyfarwyddwr Cymru dros leihau troseddu ynglŷn â chynnydd partneriaethau diogelwch cymunedol ledled Cymru. Mae'r cyfarwyddwr yn monitro a gwerthuso gwaith y partneriaethau, ac yn cynnig cefnogaeth, hyfforddiant a chyfleoedd datblygu. Mae ei dîm hefyd yn gweinyddu cyllid Llywodraeth y DU i'r partneriaethau. Rheolir y gwaith hwn gan gytundeb lefel gwasanaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Swyddfa Gartref. Apwyntiwyd swydd y cyfarwyddwr ar y cyd rhwng y Cynulliad a'r Swyddfa Gartref.

*Atebwyd cwestiwn 11 (OAQ22009) a chwestiwn 12 (OAQ22025) yn y Cyfarfod Llawn.*

*Tynnwyd cwestiwn 13 (OAQ22021) yn ôl.*

### Partneriaethau Gostwng Troseddu ac Anhrefn

**C14 Rhodri Glyn Thomas:** Sut y mae'r partneriaethau gostwng troseddu ac anhrefn yn monitro a gwerthuso'u gwaith? (OAQ22013)

**Edwina Hart:** Mae gan bartneriaethau gyfrifoldeb i gynnal gweithgareddau gwerthuso a monitro, er mai partneriaethau unigol sydd i bennu'r mecanweithiau manwl dros wneud hynny yn eu hardal hwy. Mae strategaethau diogelwch cymunedol pob awdurdod undedol, sydd erbyn hyn ar waith, yn ddibynnol ar ganlyniadau ac yn cynnwys targedau y gellir eu mesur.

Mae'r partneriaethau hefyd yn gaeth i'r gyfundrefn Gwerth Gorau ac yn agored i graffu gan y Comisiwn Archwilio. Yn ogystal, mae uned diogelwch cymunedol y Cynulliad hefyd yn ymwneud â monitro prosiectau unigol a phartneriaethau.

### Fframwaith Gwirio

**C15 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y nifer o awdurdodau lleol sydd wedi mabwysiadu'r fframwaith gwirio? (OAQ21999) [R]

**Edwina Hart:** Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cynghori bod naw awdurdod lleol yng Nghymru ar hyn o bryd yn cydymffurfio'n llawn gyda'r fframwaith dilysu budd-dal tai, ac mae pedwar awdurdod arall yn rhannol gydymffurfio.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Cynnydd ym Mhris Tocynnau Trenau (Valley Lines)

**C7 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau a fu rhwng y Gweinidog ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y cynnydd diweddar ym mhris tocynnau teithio ar drenau Valley Lines? (OAQ22057)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Ni chefais unrhyw drafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn â'r cynnydd diweddar ym mhrisiau tocynnau trên Valley Lines. Mater i'r cwmni sy'n rhedeg y trenau yw hyn, mewn cysylltiad â'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol. Daeth strwythur tocynnau parthau newydd y cwmni i rym ar 5 Ionawr, ac mae'n lleihau nifer y tocynnau'n fawr. Gall staff Valley Lines ddarparu tocynnau yn gyflym, gan sicrhau bod llai o oedi mewn gorsafoedd. Bydd cynnydd yn y prisiau ar rai siwrneiau, ond gostyngwyd pris mwy na 70 y cant o tocynnau o ganlyniad i'r system newydd.

### Asiantaeth ar gyfer Sylweddau Gwenwynig a'r Gofrestrfa Clefydau

**C8 Pauline Jarman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr ymweliad diweddar a wnaed â Nantygwyddon gan yr Asiantaeth ar gyfer Sylweddau Gwenwynig a'r Gofrestrfa Clefydau? (OAQ22051)

**Sue Essex:** Pwrpas ymweliad yr Asiantaeth ar gyfer Sylweddau Gwenwynig a'r Gofrestrfa Clefydau oedd darparu cyngor i'r Prif Swyddog Meddygol a'r Cynulliad ar sut i weithredu argymhellion adroddiad ymchwilydd Nantygwyddon. Trefnwyd a rheolwyd yr ymweliad, a oedd yn cynnwys trafodaethau ac ymgynghoriadau rhwng yr asiantaeth a'r gymuned leol, gan Ganolfan Iechyd Cymru, a bydd yn cyhoeddi adroddiad cychwynnol yr asiantaeth cyn bo hir.

### Ailgylchu Gwastraff (Gwerthu Cynnyrch)

**C9 Phil Willaims:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt creu marchnadoedd ar gyfer cynhyrchion a wnaed o wastraff wedi'i ailgylchu? (OAQ22055)

**Sue Essex:** Mae datblygu marchnadoedd newydd a chynhyrchion o ddefnyddiau a ailgylchwyd newydd yn cael ei hyrwyddo yng Nghymru gan y Rhaglen Weithredu Gwastraff ac Adnoddau ac Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru. Er enghraifft, gellir ailgylchu gwydr yn ronynnau hidlo dŵr a gro siotlanhau, a gellir ei gynnwys mewn cynhyrchion concrid. Gellir defnyddio plastigau mewn trawstiau rheilffyrdd a phren gwastraff mewn byrddau. Mae'r farchnad fetelau hefyd wedi ei datblygu'n dda.

### Ailgylchu Cerbydau Modur

**C10 Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfarwyddeb newydd yr UE ar ailgylchu cerbydau modur fel y mae'n gymwys i beiriannau fferm? (OAQ22068)

**Sue Essex:** Nid yw'r gyfarwyddeb ar gerbydau ar ddiwedd eu gwasanaeth yn berthnasol i beiriannau fferm. Fodd bynnag, disgwyliwn i berchenogion y fath beiriannau sicrhau eu trin a'u gwaredu mewn modd amgylcheddol gyfrifol pan ddeuant i ddiwedd eu gwasanaeth.

### Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol

**C11 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y bydd y Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol yn gwella'r broses gynllunio yng Nghymru? (OAQ21969)

**Sue Essex:** Canlyniad y Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol fydd gwell broses cynlluniau datblygu drwy system newydd a seilir ar gynlluniau datblygu lleol. Bydd hyn yn gwella'r broses benderfynu ac yn caniatáu system fwy tryloyw a chlir. Bydd y Mesur hefyd yn gwneud polisïau a chynlluniau, gan

gynnwys cynllun gofodol Cymru, yn fwy integredig, strategol a chynhwysol. Bydd newidiadau i'r broses prynu gorfodol yn arwain at system decach a mwy effeithiol.

### Adfer Safleoedd Tirlenwi

**C12 Geraint Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar adfer safleoedd tirlenwi? (OAQ22050)

**Sue Essex:** Unwaith y bydd safle tirlenwi yn cau, mae'n rhaid i'w weithredwr gytuno ar gynllun adfer gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i osgoi risg i iechyd dynol ac i'r amgylchedd. Bydd y cynllun adfer yn cynnwys gwaith tymor byr a rhaglen reoli hirdymor ill dau am y cyfnod angenrheidiol i sicrhau diogelwch y safle.

### Gwasanaeth Bysiau rhwng y Gogledd a'r De

**C13 Dafydd Wigley:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar unrhyw gynlluniau i gefnogi gwelliant i'r gwasanaeth bysiau rhwng gogledd a de Cymru? (OAQ22054)

**Sue Essex:** Yr wyf yn darparu hyd at £18,000 y flwyddyn ariannol hon i sicrhau y gwasanaeth Traws Cambria rhwng y Gogledd a'r De. Mae Fforwm Trafnidiaeth Cymru Gyfan wedi sefydlu grŵp i chwilio darpariaeth gwasanaethau bysiau a choetsys hirbell, gan gynnwys teithiau rhwng y Gogledd a'r De. Bydd y grŵp yn adrodd wrthyf yn y gwanwyn, a thrafodaf ei argymhellion gyda'r diwydiant, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill a chanddynt fuddiant cyn imi benderfynu ar y mater.

### Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol

**C14 Karen Sinclair:** Sut y bydd y Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol yn effeithio ar gynllunio yng Nghymru? (OAQ22063)

**Sue Essex:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i gwestiwn Ann Jones, OAQ21969, uchod.

*Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ21973) yn ôl.*